Prosbectws

Prospectus

**addysg** education . **gofal** care .
**cymreictod** welsh identity . **cyfeillgarwch**
friendship . **cymuned** community .
**cefnogaeth** support

# Ysgol Gyfun Gŵyr

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Gorau byw cyd-fyw

# *Yn Cyflwyno . . .*

## Ysgol Gyfun Gŵyr

Stryd Talbot, Tre-Gŵyr, Abertawe. SA4 3DB
Rhif Ffôn: 01792 872403 Rhif Ffacs: 01792 874197
E-Bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk
Rhif Safle We'r Ysgol: http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

**Pennaeth:** Mrs. Katherine Davies

**Penaethiaid Cynorthwyol:**
Mr. Jeffrey Connick Mr. Dafydd Jenkins Mrs. Llinos John

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** Parch. John Walters

**Is Gadeirydd:** Dr. John S. Davies

YSGOL GYFUN DDWYIEITHOG I FECHGYN A MERCHED

Amrediad oed: 11 – 18 Rhif ar y gofrestr: 782



# *Introducing . . .*

## Ysgol Gyfun Gŵyr

Talbot Street, Gowerton, Swansea. SA4 3DB
Tel: 01792 872403 Fax: 01792 874197
E-Mail: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk
Website Address: http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

**Headteacher:** Mrs. Katherine Davies

**Assistant Headteachers:**
Mr. Jeffrey Connick Mr. Dafydd Jenkins Mrs. Llinos John

**Chairman of Governing Body:** Rev. John Walters

**Vice Chairman:** Dr. John S. Davies

MIXED BILINGUAL COMPREHENSIVE SCHOOL

Age Range: 11 – 18 Number on register: 782

# Cynnwys

*Tudalen*

Rhagair ..... 4

Amcanion yr Ysgol ..... 6

Cyswllt â Rhieni ..... 8

Yr Hyn Ddywed Ein Rhieni ..... 10

Yr Hyn Ddywed Ein Disgyblion ..... 12

Gofal Bugeiliol ..... 14

Y Cwricwlwm ..... 16

Canlyniadau ..... 24

Targedau'r Ysgol ..... 26

Rhai Ystadegau Statudol ..... 28

Dyddiadau'r Tymhorau ..... 28
Oriau Ysgol

Gweithgareddau Allgyrsiol ..... 30

Gorchestion Arbennig ..... 32

Rhai o Bolisïau Eraill yr Ysgol ..... 34

Dyfyniadau o Adroddiad Arolwg o'r Ysgol ..... 36

# Contents


| | Page |
|---|---|
| Foreword | 5 |
| School Aims | 7 |
| Liaison with Parents | 9 |
| What Our Parents Say | 11 |
| What Our Pupils Say | 13 |
| Pastoral Care | 15 |
| The Curriculum | 17 |
| Results | 25 |
| School Targets | 27 |
| Some Other Statutory Statistics | 29 |
| Dates of School Terms<br>School Hours | 29 |
| Extra Curricular Activities | 31 |
| Notable Achievements | 33 |
| Some Other School Policies | 35 |
| Extracts From School's Inspection Report | 37 |

GORAU BYW CYD-FYW

# *Rhagair gan y Pennaeth . . .*

***Pennaeth:***
KATHERINE DAVIES
B.A., M.Ed.

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Mae'n bleser gen i gyflwyno Prosbectws Ysgol Gyfun Gŵyr i chi ar gyfer y flwyddyn ysgol 2006-07. Ynddo fe gewch gyfle i ddarllen am nodau ac amcanion yr ysgol, ei hethos a'i gwerthoedd. Yn ogystal, fe gewch flas ar fwrlwm bywyd academaidd ac allgyrsiol yr ysgol.

Eleni, dathlwyd ein hunfed penblwydd ar hugain ac ers sefydlu ym 1984 derbyniodd yr ysgol glod am ei llwyddiant academaidd ysgubol ar lefel sirol a chenedlaethol. Mae cyfoeth ac ehangder gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol wedi bod yn nodweddiadol o fywyd a diwylliant yr ysgol hefyd ers y cychwyn. Ymfalchïwn yn ein llwyddiannau academaidd, diwylliannol a chwaraeon ac yng nghynnydd pob disgybl beth bynnag fo ei ddawn a'i ddiddordeb. Ymfalchïwn hefyd mai Ysgol Gyfun Gymraeg yw Ysgol Gyfun Gŵyr.

Un o gryfderau mwyaf yr ysgol yw ei hethos Gymreig, gofalgar, agored a hapus lle y mae disgyblion yn teimlo'n gartrefol ac yn mwynhau eu haddysg. Ein prif nod fel ysgol yw gwneud dysgu yn brofiad cyffrous a phleserus a hynny yn bennaf trwy ddefnyddio dulliau dysgu ac addysgu diddorol a gweithredol yn ein gwersi.

Mae pob disgybl yn bwysig fel unigolyn a phob unigolyn yn bwysig fel aelod o deulu Ysgol Gyfun Gŵyr. Yr egwyddor hon o barchu'r unigolyn a gosod anghenion yr unigolyn yn y canol sydd wrth wraidd ethos, gwerthoedd a llwyddiant yr ysgol fel ysgol dda. Hyderwn y bydd pob unigolyn yn falch o fod yn perthyn i'r teulu hwn, yn falch o'i Gymreictod a'i ddwyieithrwydd ac yn medru cyfrannu yn gadarnhaol at gymdeithas aml-ieithog Cymru ac Ewrop.

Edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu chi a'ch plant i ymuno â chymuned Ysgol Gyfun Gŵyr ym Medi 2006 ac i gydweithio yn agos iawn gyda chi ar hyd y daith dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau llwyddiant ac hapusrwydd pob plentyn.

Yn gywir,

K. J. Davies.

Katherine Davies
*Pennaeth*

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award

SportsMarc NPFA

HEARTBEAT AWARD
GWOBR CURIAD CALON

# *Foreword by the Headteacher . . .*

***Headteacher:***
KATHERINE DAVIES
B.A., M.Ed.

Dear Parents/ Guardians,

It gives me great pleasure to present you with the Prospectus of Ysgol Gyfun Gŵyr for 2006-07. In it you will be able to read about the school's aims as well as the ethos and values of the school. In addition you will have a taste of the busy academic and cultural life of the school.

This year we have been celebrating our 21st anniversary and since our inception in 1984 the school has consistently attained very high academic standards at county and national level. The wide ranging and vibrant extra-curricular life of the school has been a notable feature of the school's life and culture from the outset. We delight in our success in every field including academic, cultural and sporting achievements. We take pride in the personal progress of all our pupils whatever their talents and interests.

One of the greatest strengths of the school has always been its caring, open and happy ethos where pupils feel at home and enjoy their education in a totally Welsh environment. One of our main aims as a school is to make learning an exciting and pleasurable experience mainly by ensuring we use teaching and learning methods which are interesting and actively involve our pupils.

Every pupil is regarded as an individual who is an important member of the 'family' of Ysgol Gyfun Gŵyr. This fundamental principle of respecting each individual and placing the individual's needs at the centre forms the basis of the school's ethos, values and success as a good school. We are confident that our individual pupils will be proud to be members of this 'family', proud of their Welshness and their bilingualism, and able to contribute positively to a multi-lingual Wales and Europe.

We look forward to welcoming you and your children to join the community of Ysgol Gyfun Gŵyr in September 2006 and to work closely with you over the next years to ensure the success and wellbeing of each child.

Yours sincerely,

Katherine Davies
*Headteacher*

# Nod ac Amcanion yr Ysgol

GORAU BYW CYD-FYW

## Creu a chynnal yn yr ysgol :

- cymuned glos, sydd yn gofalu am yr unigolyn a'i anghenion trwy ei osod yn y canol;

- cymuned sydd yn sicrhau gwerth cyfartal i bob disgybl heb wahaniaethu ar sail rhyw, hil, crefydd neu allu ac sydd trwy fagu hunan-barch a hunan-hyder y disgybl yn ei annog i wneud cyfraniad unigryw i fywyd yr ysgol a'r gymdeithas ehangach;

- cymuned Gymreig sydd yn hybu Cymreictod, yn magu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ac sydd yn diogelu a datblygu diwylliant y genedl; sydd hefyd yn rhoi gwerth ar ddwyieithrwydd a gallu'r disgybl i gyfrannu'n hyderus at gymdeithas aml-ieithog Cymru ac Ewrop.

- cymuned sydd, trwy weithredu o fewn fframwaith o agweddau cadarnhaol a gwerthoedd moesol ac ysbrydol, yn sicrhau fod yna arweinaiad clir i bob disgybl ar sut i ddatblygu i fod yn berson hunan-gynhaliol, cyfrifol a sensitif;

- cymuned sydd, trwy ei hamcanion cwricwlaidd ac effeithiolrwydd y dysgu a'r addysgu, yn caniatau i bob disgybl ddatblygu yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn iach tra hefyd yn sicrhau pleser a boddhad yn y gwaith.

- cymuned sydd yn paratoi pob disgybl ar gyfer y byd gwaith gan ddatblygu ei sgiliau allweddol i'r eithaf er mwyn dod yn aelod cyfrifol a gwerthfawr o'r gymdeithas.

# School Aims and Objectives

GORAU BYW CYD-FYW

## To create and maintain in the school:

- a community which is close, warm and supportive and which cares for the individual by placing his/her needs at the centre;
- a community which ensures that each pupil is valued equally without discriminating on the basis of gender, race, religion or ability and which, by nurturing in pupils a strong sense of self-respect and self-confidence, can encourage pupils to realise their unique and valuable contribution to both the school and to the wider society;
- a community which is Welsh and which raises pupils' awareness of their Welsh heritage in a way which will safeguard and develop the nation's culture; a community which also values bilingualism and the ability of each pupil to contribute confidently to a multi-lingual Wales and Europe;
- a community which operates within a framework of positive attitudes and moral and spiritual values thus ensuring clear guidance to every pupil on how to develop into a self-sufficient, responsible and sensitive person;
- a community which by means of its specific curriculum aims, and the effectiveness of its teaching and learning, succeeds in enabling all pupils to develop to their fullest potential academically, socially and physically whilst also providing satisfaction and pleasure;
- a community which prepares each pupil for the world of work by developing key skills to the full so that pupils can become responsible and valuable citizens.

# Cyswllt â Rhieni

Mae cydweithrediad agos rhwng yr ysgol a'r cartref wedi bod yn rhan bwysig iawn o fywyd yr Ysgol hon o'r cychwyn ac mae'n hanfodol i ddatblygiad llwyddiannus a chynnydd disgybl. Rydym yn annog rhieni i gysylltu â ni ac i wneud trefniadau i alw i'n gweld.




Disgyblion Blwyddyn 7 yn ystod Cwrs Iaith yn Llangrannog



Disgyblion Blwyddyn 7 yn sglefrolio yn Llangrannog

Gwahoddir rhieni disgyblion newydd i ddod i ymweld â'r ysgol ac i gyfarfod â'r staff ym mis Gorffennaf. Yna, yn ystod hanner tymor cyntaf Blwyddyn 7, cynhelir Noson Rhieni Bl 7 er mwyn i'r Tiwtor Dosbarth a'r rhieni gyfarfod i drafod sut mae'r disgyblion newydd yn ymgartrefu.



Gweithgarwch Noson Agored i ddisgyblion newydd

## Llyfrgell Gwybodaeth i Rieni

Yma ceir manylion llawn am gynnwys cyrsiau a chopïau cyflawn o ddogfennau eraill megis

- Datganiad Polisi Cwricwlwm yr A.A.Ll a'r Corff Llywodraethol
- Erthyglau Llywodraethu, Cylchlythyron a gofynion y Ddeddf Addysg
- Adroddiadau AEM sy'n berthnasol i'r ysgol
- Polisïau'r Ysgol

# Liaison With Parents

The co-operation between home and school has been a most important aspect of the life of this school from the outset and is vital to the successful development and progression of all pupils. We encourage parents to contact us to make arrangements to visit.



Some Year 7 pupils on a visit to Aberystwyth during the Language Residential Course in Llangrannog



Year 9 pupils on the lake during their Cross-curricular Residential Course in Glanllyn




Musical pupils raising money for the Tsunami appeal

Parents of new pupils starting school in September are invited to visit the school in the preceding July. At the end of the first Half Term in October, parents are invited to the school to discuss with their relevant 'Form Tutors' how the new pupils have settled down at the school.

## Parents' Information Library

Here you will find information about the content of all courses as well as complete copies of other documents such as

- LEA's and Governing Body's Policy Statement for the Curriculum
- Governing articles, circulars and details of the Education Act
- HMI reports relevant to the school
- School Policies

# Yr Hyn Ddywed Ein Rhieni

GORAU BYW CYD-FYW

Rwy'n bles iawn gyda pherfformiad a datblygiad fy mab yn yr ysgol. Roedd y gwaith pontio a wnaethpwyd rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn hynod o effeithiol ac wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer y disgyblion.

Rydym yn hapus iawn a chynnydd ein merch yn yr ysgol a hefyd gyda'r ffordd mae'r ysgol wedi darparu gwybodaeth i ni yn rheolaidd am lu o faterion a gweithgareddau sydd yn berthnasol i'w bywyd ysgol.

Teimlwn fod yna ymdeimlad cryf o arweiniad ysbrydol a moesol ymysg y staff yn ogystal ag astudiaethau academaidd. Bydd disgybl sy'n emosiynol sefydlog yn cyflawni gwaith da a felly mae deall problemau plentyn o gymorth i rieni. Daw hyn yn gryf o gymorth y Tiwtoriaid Dosbarth a Phenaethiaid Blwyddyn.

Clod i'r staff am eu cymorth a'u cefnogaeth effeithiol, eu haddysgu a'u sgiliau bugeiliol, eu caredigrwydd cyffredinol ac ymroddiad holl staff yr ysgol.

Gwerthfawrogwn yn fawr ymdrechion yr ysgol i'n hysbysu o bopeth sy'n cymryd lle ac sy'n ymwneud â'n plentyn.

Teimlwn fod ein mab yn derbyn addysg dda iawn.

Mae yna ymdeimlad o egni mawr yn yr ysgol.

Mae ein mab wedi ymroi ei hun yn llwyr i fywyd allgyrsiol yr ysgol ac yn barod ym Mlwyddyn 7 mae wedi derbyn profiadau gwerthfawr a chyfoethog ac edrycha ymlaen at fynd i'r ysgol bob dydd.

Bodola ymdeimlad o gymuned agos a chyfeillgar yn yr ysgol - agored i rieni.

Awyrgylch cyfeillgar a chroesawgar - perthynas dda rhwng staff a disgyblion.

Diolch yn fawr iawn am gefnogaeth y staff - fel rhieni rydym yn falch i gael ein cysylltu â Gŵyr.

Rydym wedi gwerthfawrogi yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i'r plant ac rydym yn ddiolchgar i'r staff sy'n barod i roi o'u hamser yn eu trefnu.

Enw da - canlyniadau ardderchog - da iawn chi!

Digon o gyfleoedd i drafod cynnydd fy mhlentyn gyda'r athrawon - Nosweithiau Rhieni cyson.

Mae hon yn ysgol hapus - mae fy mhlentyn yn mwynhau mynd i'r ysgol.

Hoffem ddatgan ein diolch i holl staff yr ysgol, nid yn unig am eu hymdrechion i gynnal safonau academaidd uchel ond hefyd am eu parodrwydd i sicrhau bod y disgyblion yn cael y cyfle i brofi ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol.

# What Our Parents Say

I am pleased with the performance and development of my son in school. I thought the bridging work done between primary school and Gŵyr was particularly effective and I think that lays down firm foundations for the pupils.

We are very pleased with our child's progress and with the way the school provided regular information on the wide variety of issues and activities related to her school life.

We feel that there is a strong sense of spiritual guidance with staff as well as academic studies. An emotionally stable child will produce good work so understanding the child's troubles if possible helps parents. This comes strongly from the help of Form Tutors and Heads of Year.

Commendations to the staff for their helpful and efficient support, their teaching and pastoral skills and the general kindness and commitment of all the staff at the school.

We greatly appreciate the efforts made by the school to keep us fully informed of everything taking place that concerns our child.

I feel that our son receives a very good education.

A feeling of great energy in the school.

Our son has thrown himself into the extra-curricular life of the school and already in Year 7 has had rich and valuable experiences and looks forward to go to school every day.

A close and friendly community feeling in the school - open to parents.

A friendly and welcoming atmosphere - good relationships between staff and pupils.

Thank you so much for the support of the staff - as parents we are proud to be associated with Gŵyr.

We have appreciated the wide range of extra-curricular opportunities available to our children and are grateful to the staff who are willing to give of their time to run them.

Great reputation - excellent results - well done!

Plenty of opportunities to discuss my child's progress with the teachers - regular Parents' Evenings.

This is a happy school - my child enjoys going to school.

I would like to express my thanks to all the school staff, not only for their efforts in maintaining the high academic standards but also for their willingness to offer a wide range of extra curricular activities.

GORAU BYW CYD-FYW

# Yr Hyn Ddywed Ein Disgyblion

## Disgyblion Blwyddyn 7

- Mae yna lot o glybiau amser cinio, egwyl neu ar ôl ysgol. Mae Gŵyr moen i chi fod yn hapus a dysgu ar yr un pryd.

- Mae Gŵyr fel un teulu mawr.

- Mae Gŵyr wedi rhoi i mi gannoedd o gyfleon mewn chwaraeon - rwy wedi bod yn y tîm pêl-rwyd, pêl-droed, gymnasteg, athletau, traws gwlad a llawer mwy.

- Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn arbennig oherwydd rydym yn cael nifer o brofiadau. Gallwch wneud unrhyw chwaraeon ac mae Gwyddoniaeth yn cŵl! Gallwch wneud cymysgyddion gydag asid! Hefyd gallwch ymuno a'r Clwb Drama a'r côr,

- Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn wych - mae digon o weithgareddau i'n diddanu ni drwy'r amser.

- Mae'r bwyd yn neis a'r ciwiau yn fyr y rhan fwyaf o'r amser.

- Yn Ysgol Gyfun Gŵyr, mae'n hwyl achos rydych chi'n cwrdd â lot o ffrindiau. Mae'r gwersi DT yn dda achos rydych yn gallu defnyddio peiriannau. Mae Gwyddoniaeth yn dda oherwydd rydych chi'n gallu defnyddio Gwresogydd Bynsen a gwneud arbrofion.

- Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ysgol hyfryd i fod ynddi. Mae llawer o le i chwarae ac rydych yn dysgu llawer o bethau ac mae clybiau ar ôl ysgol. Rydych yn gwneud ffrindiau yn gloi.

- Mae Gŵyr yn ysgol arbennig o dda - mae clybiau hwyl a llawer mwy. Mae pynciau diddorol a gweithgareddau amser cinio fel clwb TG, pêl-rwyd, pêl-droed, côr, clwb gwaith cartref, rygbi. Mae'r bwyd yn flasus!

- Mae'r athrawon i gyd yn hyfryd. Mae llawer o brofiadau ac rydych yn gwneud llawer o ffrindiau o ysgolion eraill. Hefyd os oes problem gallwch siarad a'r Pennaeth Blwyddyn.

- Mae Gŵyr yn ysgol arbennig oherwydd rydym yn cael nifer o brofiadau gwych fel Llangrannog ym Mlwyddyn 6 a 7, Glanllyn ym Mlwyddyn 9 a Llangrannog eto yn y Chweched Dosbarth fel swyddog!

- Rwy'n hoffi Gŵyr oherwydd mae yna lawer o wersi newydd a llawer o glybiau ac hefyd mae'r Chweched yno i helpu chi os oes rhywbeth yn bod. Mae'r athrawon mor neis hefyd. Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn gret!

- Roeddwn i wir wedi hoffi'r Cwrs Pontio yn Llangrannog.

# What Our Pupils Say

## Year 7 Pupils

- There are lots of clubs lunchtime and after school. Gŵyr wants you to be happy and learn at the same time.
- Gŵyr is like one big family.
- Gŵyr has given me hundreds of opportunities in sport - I have been in the netball team, football, gymnastics, athletics, cross-country and lots more.
- Ysgol Gyfun Gŵyr is special because we have many experiences. You can do any sport and Science is cool! You can do chemical reactions with acid! You can also join the choir and the Drama Club.
- Ysgol Gyfun Gŵyr is excellent - there are plenty of activities to keep you occupied all the time.
- The food is nice and the queues are short most of the time.
- At Ysgol Gyfun Gŵyr it is fun because you meet lots of friends. The DT lessons are good because you can use machines. The Science lessons are good because you can use the Bunsen Burner and do experiments.
- Ysgol Gyfun Gŵyr is a lovely school to be in. There is plenty of room to play and you learn lots of things and there are clubs after school. You make friends really quickly.
- Gŵyr is a very good school - there are fun clubs and a lot more. The subjects are interesting and there are lunchtime activities like the IT Club, netball, choir, homework club, rugby. The food is tasty!
- All the teachers are lovely. There are lots of experiences and you make lots of new friends from other schools. Also if you have a problem you can speak to your Head of Year.
- Gŵyr is a great school because we have so many excellent experiences like going to Llangrannog in Years 6 and 7, Glanllyn in Year 9 and Llangrannog again in the Sixth Form as a swog!
- I like Gŵyr because there are lots of new lessons and many clubs and also the Sixth Formers are there to help you if there is something wrong. The teachers are so nice too. Ysgol Gyfun Gŵyr is great!
- I really enjoyed the Bridging Course in Llangrannog in Year 6.

# Gofal Bugeiliol

Prif nod y drefn fugeiliol yw diogelu'r sylw angenrheidiol i bob unigolyn er mwyn sicrhau ei les a'i hapusrwydd yn yr ysgol.

Y Tiwtor Dosbarth sy'n dod i gysylltiad â'r disgyblion rhan amlaf ac felly mae iddo/i ran allweddol yn y gofal arbennig iawn hwn. Teimlir ei fod yn bwysig fod gan bob disgybl rywun yn yr ysgol y gall ymddiried ynddo/i a throi ato/i i drafod unrhyw agwedd ar fywyd ysgol neu broblemau personol. Fel rhan o'r drefn fugeiliol a'r Ffeil Cynnydd caiff bob plentyn gyfle penodol i gael sgwrs personol gyda'i Diwtor Dosbarth yn gyson. Caiff gyfle felly i drafod unrhyw broblemau neu anawsterau sy'n codi ac sy'n achosi gofid.

Atgyfnerthir gwaith y Tiwtor Dosbarth gan y Pennaeth Blwyddyn, Y Prifathrawon Cynorthwyol a'r Pennaeth.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm bugeiliol pendant a neilltuir amser penodol ar gyfer hwn yn wythnosol. Mae'n rhoi cyfle i drafod materion yn ymwneud â bywyd personol a chymdeithasol yr unigolyn, gan gynnwys perthynas â phobl eraill, addysg iechyd, gyrfau, sgiliau astudio a chyfathrebu. Rhan naturiol a phwysig o'r gwersi hyn hefyd yw Addysg Ryw.



**Trefnu Ymwelydd o fewn y Cwrs 'Datblygiad Personol'**

## Amcanion Penodol Polisi Rhyw yr Ysgol:

- Cyflwyno a thrafod yr holl faterion sy'n gysylltiedig â rhyw mewn ffordd sensitif a chariadus
- Rhoi'r cyfle i'r disgyblion gael gwybodaeth ffeithiol am eu cyrff a'r prosesau sy'n gysylltiedig â rhyw – fel blaenlencyndod, atalcenhedlu, erthylu, AIDS a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol
- Gwneud hynny o fewn cyd-destun perthynas gariadus a gofalgar o gyfrifoldeb personol, o hunan-barch a pharch at eraill

## Rhai Unedau Personol Addysg Rhyw:

- Dechrau fy mywyd
- Cenhedlu, tyfiant a genedigaeth babi
- Newidiadau'r corff
- Ffurfio perthynas
- Pwysau cyfoedion
- Gofal am ffrindiau a chariadon
- AIDS
- Atalcenhedlu
- Cancr – y fron, y groth a'r ceilliau
- Afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol
- Bod yn rhiant


# Pastoral Care

The underlying aim of the pastoral care system is to ensure that every individual receives the attention that is necessary for his/her well being and happiness while at school.

The Form Tutor is in daily contact with the children in his/her form and is therefore a key person in this process. We believe it to be important that every child has someone in school in whom he/she can trust and with whom any school-related matters or personal problems can be discussed. As part of the pastoral care and the Progress File system each pupil has specific and regular personal discussion time with the Form Tutor. This makes it possible to discuss any problems or difficulties which may arise and which are causing concern to the pupil.

The work of the Form Tutor is reinforced by the Head of Year, Assistant Headteachers and Headteacher.

The school has a specific pastoral curriculum and time is set aside each week for this. It provides an opportunity to discuss all topics related to the pupils' personal lives, including relationships with others, health education, careers, study skills and communication. Also an important and natural part of these lessons is sex education.



Art

## Specific Aims of Sex Education:

- To introduce and discuss matters connected with sex in a sensitive and caring manner.
- To give the pupils an opportunity to receive factual information about their bodies and processes connected with sex, such as puberty, contraception, abortion, Aids and sexually transmitted diseases.
- To do this within the context of caring and loving relationships, of personal responsibility and of respect for oneself and others.

## Some Specific Sex Education Topics:

- Starting my life
- Conception, growth and birth of a baby
- Physical changes
- Forming relationships
- Peer pressure
- Caring for friends and lovers
- AIDS
- Contraception
- Cancer – breast, cervical and testicular
- Sexually transmitted diseases
- Being a parent

# Y Cwricwlwm

## Crynodeb o Nodau Cwricwlwm yr Ysgol

Ein prif nod yw cynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol i bob disgybl yn yr ysgol hon trwy:

- gyflawni holl ofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol
- ymateb i ddewisiadau ein disgyblion a sicrhau y darperir dewis eang iddynt o lwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg perthnasol 11-18
- ddatblygu Sgiliau Sylfaenol ac Allweddol pob disgybl gan gynnwys y sgiliau Llythrennedd, Rhifedd,Technoleg Gwybodaeth, a Chyfathrebu
- feithrin agweddau cadarnhaol ym mhob unigolyn fel y gall addasu'n hyblyg i syniadau a sefyllfaoedd newydd
- hyrwyddo'r gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal â chyd-weithio mewn tîm i ddatrys problemau a phenderfynnu ar ddulliau priodol o gyflawni tasgau
- helpu pob unigolyn i ddatblygu safonau personol sydd yn dangos sensitifrwydd tuag at anghenion pobl eraill ac sydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu'n ddinasyddion gofalgar a chyfrifol
- gymell pob unigolyn i gyrraedd ei lawn botensial gan weithredu proses y Ffeil Cynnydd a rhoi cyfleon i hunan-werthuso yn rheolaidd a chynllunio ar gyfer gwneud cynnydd pellach
- hybu cyfle cyfartal a chynhwysiant a'r egwyddor o barch at bob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach
- hybu Cymreictod a'r Cwricwlwm Cymreig gan ehangu ymwybyddiaeth y disgybl o dreftadaeth a diwylliant y genedl ynghyd â dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a pharch tuag atynt
- hybu ymwybyddiaeth fyd-eang o faterion amgylcheddol a chynaladwyedd
- hybu ymwybyddiaeth o fyw a bwyta'n iach
- hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o ofynion y byd gwaith a rhoi cyfleon i ddisgyblion gael profiadau byw o'r gweithle ac i ddilyn cyrsiau galwedigaethol; yn ogystal trwy sicrhau y darperir cyngor ac arweiniad gyrfaol o safon uchel i bob disgybl.

## Y Defnydd a Wneir o'r Gymraeg

**Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol hon ac anogir a chynorthwyir yr holl ddisgyblion i'w meistroli a'i defnyddio ar bob achlysur.**

Mae'r Gymraeg yn bwnc craidd yn yr ysgol ac felly yn rhan o gwricwlwm pob disgybl.

Yn ogystal, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu yn helaeth iawn. Dysgir yr holl destunau, ac eithrio Saesneg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Dysgir Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ym mlynyddoedd 7 – 9 ac anogir y disgyblion i ddilyn cwrs Gwyddoniaeth Blynyddoedd 10 – 11 yn y Gymraeg yn ogystal. Mae cyfle i ddilyn y cwrs hwn trwy gyfrwng y Saesneg pe dymunir hynny. Felly cynigir cyrsiau Gwyddoniaeth Blwyddyn 10 – 11 yn y ddwy iaith. Ar hyn o bryd, ar gyfer Safon 'A' cynigir pynciau Gwyddonol ac Economeg drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

# The Curriculum

## A Summary of the School's Curriculum Aims

Our main aim is to provide a broad, balanced and relevant curriculum to every pupil in the school by:

- meeting all the statutory requirements of the National Curriculum
- responding to the choices of our pupils and ensuring that a wide range of relevant learning paths are available through the medium of Welsh 11-18
- developing the Basic and Key Skills of all our pupils which include Literacy, Numeracy, Information Technology, and Communication skills
- developing in each individual positive attitudes which will enable him/her to adapt flexibly to new ideas and situations
- developing the ability of pupils to work independently as well as members of a team to solve problems and to decide on specific ways of accomplishing tasks
- helping each individual to become sensitive to the needs of others and to become caring and responsible citizens
- motivating each individual to reach his/her full potential, using the Progress File to actively involve pupils in the process of self-evaluation and action planning to make further progress
- promoting equal opportunities and inclusion and the principle of respecting every individual within the school unit as well as in the wider community, thus allowing our young people to mature into active citizens
- promoting Welshness and the Cwricwlwm Cymreig and fostering an awareness of the nation's heritage and culture, as well as an understanding of, and a respect towards, other cultures.
- promoting a world-wide awareness of environmental and sustainabilty issues
- promoting an awareness of healthy living and healthy eating
- developing an understanding of the requirements of the world of work and providing pupils with opportunities to gain real life experiences of the work place and vocational courses; in addition by ensuring that every pupil receives high quality careers advice and guidance.

## Use of Welsh

**The school's official language is Welsh and all pupils are encouraged and helped to master the language and to use it at all times.**

Welsh is a core subject at the school and features therefore in each child's curriculum.

Welsh is also used substantially as a teaching medium. All subjects, excluding English and Science, are taught solely through the medium of Welsh.

Science is also taught exclusively through the medium of Welsh during Years 7 – 9 and pupils are encouraged to pursue their Science courses in Years 10 and 11 through the medium of Welsh. The opportunity to follow this course through the medium of English is available if so desired. Therefore Year 10 and 11 Science courses are offered in both languages. At present, 'A' level courses in the Science subjects and Economics are taught through the medium of English only.

## Arweiniad a Chynghori Gyrfaol

Rhoddir llawer o sylw i Addysg Gyrfau ac i gynghori disgyblion yn ofalus ac yn fanwl. Gwahoddir ac anogir cyswllt cyson â Swyddog Gyrfau yr ysgol. Trefnir gweithgareddau yn ymwneud â'r byd gwaith i bob blwyddyn gan gynnwys Diwrnodau Diwydiant, Entrepreneuriaeth a Menter Busnes.

Bydd pob disgybl yn ystod Blwyddyn 10 yn treulio wythnos o amser ysgol ar **BROFIAD GWAITH** gydag un neu fwy o gyflogwyr yn y gymuned leol. Cyfnod yw hwn i'r disgyblion gael blas ar fyd gwaith tra'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr profiadol. Bydd disgyblion y 6ed Dosbarth yn gwneud wythnos o brofiad gwaith ar ddiwedd Blwyddyn 12. Mae disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 yn cael y cyfle i fod yn rhan o ffug-gyfweliadau a gynhelir gan gyflogwyr lleol.



**Sesiwn Ffitrwydd ar Ddiwrnod Iechyd yr ysgol**



**Ymwelydd o Elusen MacMillan yng ngwasanaeth y Chweched**

## Cymwysterau Allanol a Gynigir


Mae'r ysgol yn cynnig dewis eang o gyrsiau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Alwedigaethol yn ogystal â rhai cyrsiau Tystysgrif Lefel Mynediad a rhai Cyrsiau Galwedigaethol. Gwelir rhestr o'r pynciau ar y dudalen nesaf.

Polisi'r ysgol yw i annog pob disgybl oed 16 i ennill tystysgrif TGAU neu gymhwyster cyfatebol ac ymfalchïwn yn y ffaith i 100% lwyddo i wneud hynny yn 2005.

# Careers Advice and Guidance

Considerable attention is given to Careers Education and the careful and thorough counselling of pupils. Regular liaison with the school Careers Officer is invited and encouraged. A World of Work programme of work related activities has been developed for Years 7-13 which includes Industry, Business and Enterprise days.

All Year 10 pupils spend a week out of school on **WORK EXPERIENCE** with one or more employers within the local community. This is an opportunity for the pupils to experience the world of work and to work alongside experienced workers. The 6th Form pupils spend a week on work experience at the end of Year 12. Pupils in Years 11 and 13 have the opportunity to take part in mock interviews held by local employers.



**Year 9 pupils developing revision skills with a guest speaker**



**Duke of Edinburgh outdoor pursuits activity for Year 10 pupils**

# External Qualifications Offered

The school offers a wide range of GCSE and Advanced Level as well as some Entry Level and Vocational Courses. A list of the courses can be seen on the following page.

It is the policy of the school to encourage every pupil at the age of 16 to attain a GCSE certificate or other qualifications and we take pride in the fact that we achieved a 100% success rate in 2005.

# Crynodeb o Gynnwys Cwricwlwm 2005/2006 yr Ysgol

## – cylch amserlen pythefnos *(50 gwers)**

### CA3

**Blynyddoedd 7 & 8**

Cymraeg$_6$ • Saesneg$_6$ • Mathemateg$_6$ • Gwyddoniaeth$_6$ • Ffrangeg$_4$ • Celf$_2$ • Cerdd$_2$ • Drama$_2$ • Addysg Grefyddol$_2$ • Hanes/Daearyddiaeth$_5$ • Dylunio a Thechnoleg$_4$ • Technoleg Gwybodaeth$_2$ • Ymarfer Corff/Chwaraeon$_3$ • Addysg Bersonol a Chymdeithasol$_2$

**Blwyddyn 9**

Cymraeg$_6$ • Saesneg$_6$ • Mathemateg$_6$ • Gwyddoniaeth$_6$ • Ffrangeg$_3$ • Almaeneg$_2$ • Celf$_2$ • Cerdd$_2$ • Drama$_2$ • Hanes/Daearyddiaeth$_5$ • Addysg Grefyddol$_2$ • Dylunio a Thechnoleg$_3$ • Ymarfer Corff/Chwaraeon$_3$ • Technoleg Gwybodaeth$_2$ • Addysg Bersonol a Chymdeithasol$_2$

### CA4

**Blwyddyn 10/11**

*Craidd:* Cymraeg$_6$ • Saesneg$_6$ • Mathemateg$_6$ • Gwyddoniaeth (Sengl)$_5$ • Ymarfer Corff$_2$ • Technoleg Gwybodaeth$_2$ • Addysg Grefyddol$_2$ • Gyrfau$_1$ • Addysg Bersonol a Chymdeithasol$_2$

**Blwyddyn 10/11** *(4 dewis/5 gwers yr un)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylunio a Thechnoleg<br>Bwyd a Maeth<br>DT: Tecstilau<br>Astudiaethau Busnes<br>Almaeneg<br>Gwyddoniaeth Dwbl | Iechyd a Gofal<br>Daearyddiaeth<br>Hanes<br>Ffrangeg<br>Addysg Gorfforol | Ffrangeg<br>Celf<br>Astudiaethau Cyfryngau<br>Drama<br>Datblygiad Plentyn<br>Cerdd | OCN: Trin Gwallt/Trin Ceir<br><br>Asdan: Sgiliau Bywyd |

### Cwricwlwm 16+

1. **Cwricwlwm Sylfaenol Gorfodol:** Sgiliau Allweddol, Addysg Gorfforol, Tiwtorial
2. **Cyrsiau Safon A, Uwch Gyfrannol ac Uwch Gymhwysol**

| A/UG | Col 1<br>9 Gwers | Col 2<br>9 Gwers | Col 3<br>9 Gwers | Col 4<br>9 Gwers | Col 5<br>9 Gwers |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mathemateg<br>Saesneg<br>Hanes<br>Almaeneg<br>Celf | Cemeg<br>Hanes<br>Dylunio a Thechnoleg<br>Seicoleg<br>Addysg Gorfforol<br>Y Gyfraith | Ffiseg<br>Cerdd<br>Ffrangeg<br>Seicoleg<br>Astudiaethau Cyfryngau | Bioleg<br>Cymraeg<br>Daearyddiaeth<br>Economeg | Cyfrifiaduron<br>Saesneg<br>Celf<br>Drama<br>Busnes<br>Mathemateg<br>Ystadegau |
| Uwch Gymhwysol | Iechyd a Gofal | | Hamdden ac Adloniant | | |
| | Busnes | | | | |

3. **Cyrsiau Eraill:** BTEC Gwasanaethau Cyhoeddus (cyfateb â pedwar TGAU A* - C)
4. **Cyrsiau Ail-Sefyll:** Mathemateg$_3$ Cymraeg$_3$ Saesneg$_3$ Gwyddoniaeth$_3$

* Rhagwelir y bydd amserlen 60 gwers yn 2006-2007

# Summary of Content of the 2005/2006 School Curriculum

## – 2 week timetable cycle *(50 lessons)**

### KS3

**Years 7 & 8**

Welsh$_6$ • English$_6$ • Mathematics$_6$ • Science$_6$ • French$_4$ • Art$_2$ • Music$_2$ • Drama$_2$ • Religious Education$_2$ History/Geography$_5$ • Design and Technology$_4$ • Information Technology$_2$ • P.E./Games$_3$ • Personal and Social Education$_2$

**Year 9**

Welsh$_6$ • English$_6$ • Mathematics$_6$ • Science$_6$ • French$_3$ • German$_2$ • Art$_2$ • Music$_2$ • Drama$_2$ • History/ Geography$_5$ • Regligious Education$_2$ • Design and Technology$_3$ • P.E./Games$_3$ • Information Technology$_2$ • Personal and Social Education$_2$

### KS4

**Years 10/11**

*Core:* Welsh$_6$ • English$_6$ • Mathematics$_6$ • Science (Single)$_5$ • P.E.$_2$ • Information Technology$_2$ • Religious Education$_2$ • Careers$_1$ • Personal and Social Education$_2$

**Year 10/11** *(4 choices/5 lessons each from)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Design and Technology<br>Food and Nutrition<br>DT: Textiles<br>Business Studies<br>German<br>Double Science | Health and Social Care<br>Geography<br>History<br>French<br>Physical Education | French<br>Art<br>Media Studies<br>Drama<br>Child Development<br>Music | OCN: Hairdressing/ Motor Mechanics<br><br>Asdan: Life Skills |

### Curriculum 16+

1. **Core:** Key Skills, Physical Education, Tutorial
2. **A/AS/Applied A Level Courses**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| A/AS | Col 1<br>9 Lessons<br>Mathematics<br>English<br>History<br>German<br>Art | Col 2<br>9 Lessons<br>Chemistry<br>History<br>Design & Technology<br>Psychology<br>Physical Education<br>Law | Col 3<br>9 Lessons<br>Physics<br>Music<br>French<br>Psychology<br>Media Studies | Col 4<br>9 Lessons<br>Biology<br>Welsh<br>Geography<br>Economics | Col 5<br>9 Lessons<br>Computing<br>English<br>Art<br>Drama<br>Business<br>Mathematics<br>Statistics |
| Applied A Levels | Health and Social Care | | Leisure and Recreation | | |
| | Business | | | | |

3. **Other Courses:** BTEC Public Services (equivalent to four GCSE A* - C)
4. **Re-sit Courses:** Mathematics$_3$ Welsh$_3$ English$_3$ Science$_3$

* A 60 lesson timetable will be implemented in 2006-2007

## Trefniadau'r Dysgu

Ar hyn o bryd mae hyd y gwersi yn 1 awr a gweithir i amserlen pythefnos o 50 o wersi. Dysgir disgyblion Blynyddoedd 7 a 8 mewn dosbarthiadau gallu cymysg. Ar gyfartaledd tua 25 o ddisgyblion fydd ym mhob grŵp dysgu.

Mae methodoleg dysgu'r ysgol yn ddisgybl ganolog ac wedi ei seilio ar brofiadau gweithredol. Anogir y disgyblion i gyd-weithio, i drafod safbwyntiau, i ddatrys problemau, penderfynu ar ddulliau gweithredu ac yn gyffredinol i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'r dull hwn o ddysgu yn rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan weithredol yn ei addysgu ei hun.



**Tîm Gymnasteg Iau yr ysgol**

## Addysg Anghenion Arbennig

Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – yw'r anghenion addysgol sydd gan ddisgyblion oherwydd anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio, gwybyddiaeth a dysgu, ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol neu anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol, sy'n gwneud y ddarpariaeth addysgol arferol yn anaddas i'w gofynion.

Nôd yr ysgol yw sicrhau gwerth cyfartal i bob disgybl. I gyflawni hyn y mae'r ysgol yn derbyn y dylai pob unigolyn gael y cyfle i gyfranogi o gwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol beth bynnag yw'r anghenion addysgol arbennig ac i ddatblygu hyd eithaf ei allu o fewn y cwricwlwm hwn. I gyflawni hyn bydd yr ysgol yn –

- integreiddio'r disgyblion i sicrhau dosbarthiadau gallu cymysg ym Ml 7 a 8. Ceir cyfleustra dysgu arbennig ar gyfer plant a gofynion dysgu penodol;
- disgwyl fod pob athro yn athro AAA;
- derbyn fod gofynion arbennig gan y ddau begwn gallu mewn dosbarth gallu cymysg;
- darparu cymaint o gymorth dysgu ag sy'n bosib;
- cynnal dulliau asesu ar draws y cwricwlwm sy'n cydnabod gwendidau a chryfderau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- cadw'r dosbarthiadau mor fach ag sy'n bosib o flwyddyn 9 ymlaen pan ddefnyddir peth setio sy'n galluogi creu grwpiau llai yn y pynciau craidd ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu;
- ymgynghori a thrafod manwl gyda'r ysgolion cynradd i baratoi ar gyfer darpariaeth Blwyddyn 7;
- defnyddio'r holl asiantaethau allanol sydd ar gael i gynnig cymorth pellach.
- Mae gan yr ysgol gyd-lynydd AAA a gellir cysylltu â hi er mwyn trafod unrhyw ofidiau penodol.



